

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Bessie Owens (Cefn Berain) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Beti Williams (Llansannan) yn yr Inffirmari. Bu Rhiannon Davies (Llansannan) yn Ysbyty Maelor am ychydig ddyddiau y penwythnos diwethaf hefyd ond da clywed ei bod wedi dod adref erbyn hyn. Cyflwynwn y tair – a phawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd – i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Elsie May Edwards, Llansannan (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); Mrs Menna Owen, Cefn Meiriadog, Miss W J Roberts, Cefn Meiriadog a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); a Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

beibl.net mewn print bras

Er gwybodaeth i'r rhai sydd wedi archebu copi, y dyddiad cyhoeddi diweddaraf yw 6ed Ionawr 2017. Cânt eu dosbarthu i chi mor fuan â phosibl wedi hynny.

I ddod

- **CINIO NADOLIG JANGL** yn Ysgol Bro Aled, Llansannan ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 13eg am 12.00. (*Sylwch ar y newid dyddiad.*)
- **ASTUDIAETH FEIBLAIDD I'R FRO** yng Nghapel Llanefydd nos Iau, Rhagfyr 15fed.
- **POSH NOSH – PARTI NADOLIG C.I.C.** yn Llansannan nos Wener, Rhagfyr 16eg.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn **am 9.30.**
- **SWPER NADOLIG Y CYFARFODYDD GANOL WYTHNOS / OEDFA'R FRO** yn Ffestri Llansannan, nos Fercher, Rhagfyr 28ain am 7.30.
- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R FRO** o gwmpas y llyn yng Nghwm Idwal, dydd Iau, Rhagfyr 29ain.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Ionawr 1af **am 10.30** yng Nghapel Llanefydd.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Darllenid Wythnos Nesaf

Eseia 11:1-5 (BCND tud.629 / BCN tud.574)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4^{ydd} Rhagfyr 2016

Darllenid y Dydd

Luc 1:46-56

(BCND tud.61 / BCN tud.56)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'r gwahanol oedfaon ym Mro Aled heddiw. Wrth i ni nesáu at y Nadolig, dwi'n siŵr fod yr un pethau yn rhedeg trwy feddwl llawer ohonom – sut wibiodd y flwyddyn heibio mor sydyn, neu sut ydw i'n mynd i lwyddo i gyflawni popeth sydd angen ei wneud cyn y 25ain?! Ymateb tra gwahanol a welwn gan Mair wrth iddi geisio prosesu beth fyddai'n digwydd iddi wrth roi genedigaeth i'w phlentyn cyntaf, a hynny mewn amgylchiadau mor syfrdanol ac annisgwyl. Os ydym ni'n meddwl fod pwysau arnom ni wrth baratoi at brysurdeb y Nadolig dychmygwch angel yn dod atoch yn datgan mai chi fydd mam Mab y Goruchaf! (Luc 1:32)

Gwelwn ymateb Mair yn yr adran hyfryd o Efengyl Luc y byddwn yn ei darllen hefo'n gilydd heddiw – Luc 1:46-56. Yma mae Mair yn datgan ei mawl i'r Arglwydd oherwydd iddo roi'r fath fraint iddi hi a gweithredu trwyddi er mai digon cyffredin oedd hi ohoni ei hun. Nid cael ei bendithio y mae Mair oherwydd ei daioni, ond derbyn ffafr Duw oherwydd bwriadau graslon yr Arglwydd. Yn hynny gwelwn arwydd clir o ymwneud Duw â'i bobl ymhob cenhedlaeth – galw pobl i fod yn bobl iddo Ef er gwaethaf pwy ydynt a beth maent wedi eu gwneud y mae'r Arglwydd, ac nid ar sail eu perfformiad. Dyna sy'n cael ei bwysleisio gan Paul yn Effesiaid 2:8-9 'Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd. Nid eich gwaith chwi yw hyn; rhodd Duw ydyw; nid yw'n dibynnu ar weithredoedd, ac felly ni all neb ymffrostio.'

Er mor aml y byddwn yn clywed y geiriau hyn, mae'n hawdd i ni fyw ein bywydau fel petai rhaid i ni ennill ymddiriedaeth yr Arglwydd cyn iddo weithio ynom. Ond ym mywyd Mair, hi roddodd ei hymddiriedaeth yn yr Arglwydd, er nad oedd hi'n hollol sicr sut y byddai popeth yn disgyn i'w lle. Gallodd wneud hyn oherwydd bod ganddi afael amlwg ar wirioneddau'r Ysgrythur. Gwyddai hanes yr Hollalluog yn ymwneud â'i bobl – ei fod yn Un oedd yn llawn trugaredd a nerth, yn gwrthwynebu'r balch ac yn dyrchafu'r rhai sy'n neb (ad. 50-52). Wrth ddod at Nadolig 2016 gallwn weld gymaint yn rhagor na'r hyn a ddeallodd Mair cyn geni'r Mab. Cawsom ni'r fraint o gael clywed pwy yn union oedd y Mab, a dod i wybod fod yr hyn a wnaeth Iesu trwy ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad wedi dod â ffafr dragwyddol Duw i bawb sy'n credu. Diolchwn am wyrth y geni a chofiwch am yr Oedfa Garolau nos Sul nesaf am 6 yng Nghapel Coffa Henry Rees. Bydd yn gyfle arbennig i ni ddiolch am ddyfodiad y Gwaredwr i'n byd, a thrwy'r gwahoddiadau gallwn annog eraill o bell ac agos i ymuno â ni!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 🐦


Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 6^{ed} ➤ **Torri Syched y Merched** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
- **Parti Nadolig Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Iau – 8^{fed} ➤ **Parti Nadolig Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuencid sydd wedi dangos diddordeb i gael eu derbyn yn aelodau) yn y Granar, Llansannan o 7.30 - 9.00.

Sul nesaf – 11^{eg}



Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- Gwener – 9^{fed} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) erbyn dydd Sul, Rhagfyr 4ydd os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg ag oedfa'r bore yng Nghefn Berain.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mercher – 7^{fed} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Bydd cyfarfod yn y Granar am 7.30 i drafod materion perthnasol i'r Ysgol Sul ac i drefnu'r Parti Nadolig. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa Sul y Beibl yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd y plant yn ymarfer ar gyfer y gwasanaeth Nadolig. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 4^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Henllan am 10.00. Yn ystod yr oedfa, bydd Gareth a Lowri Evans yn cyflwyno Caron Lloyd i gael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes ac yn Henllan am 10.00.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.